| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) 1992 (O.S. 1992/1689) ("Rheoliadau 1992"), sy'n rhagnodi'r gofynion y mae ymgymerwyr i gadw atynt wrth adfer strydoedd gan gyfeirio at God Ymarfer a ddyroddwyd yn 1992. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi paratoi Cod Ymarfer newydd o'r enw "Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd" (y "Cod newydd"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 i adlewyrchu'r ffaith fod paragraffau wedi cael rhifau newydd, a phenawdau wedi cael enwau newydd, yn y Cod newydd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dilyn y Cod newydd drwy ddarparu fod y Cod yn gymwys i bob ffordd sy'n cario 125 o filiynau o echelau safonol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 2(2) yn darparu bod ""the Code" means the code of practice entitled "Specification for the Reinstatement of Openings in Highways" dated ……………….2006, and approved by the National Assembly for Wales on…………2006 as revised and reissued from time to time;". Nid yw bylchau gwag yn briodol mewn deddfwriaeth, ac er na fyddai wedi bod yn bosibl mewnosod y manylion pan ddrafftiwyd y Rheoliadau'n wreiddiol, dylai'r dyddiadau fod wedi'u mewnosod cyn eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Deddfau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Dylid mewnosod y dyddiadau erbyn hyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau cyn

cymeradwyo’r Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn.

## Sylwadau

Byddai cyfeiriad at "as revised and reissued from time to time" fel arfer yn golygu bod y pwer i ddiwygio’r ddeddfwriaeth yn cael ei is-ddirprwyo’n anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae adran 104(3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, sef y Ddeddf sy’n darparu’r pwer i wneud y Rheoliadau hyn, yn rhoi awdurdod penodol i wneud cyfeiriadau o’r fath.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 10 Hydref 2006